


**Rhifyn 16 - 22ain o Fai 2026**

## Neges y Pennaeth

Annwyl Rieni a Chyfeillion,

Mae'n bleser gennyf rannu rhifyn diweddaraf o'n cylchgrawn DOLEN gyda chi. Mae'r hanner tymor diwethaf wedi bod yn un byrlymus iawn, gyda nifer fawr o weithgareddau wedi'u cynnal a llwyddiannau di-ri i'w hadrodd arnynt.

Bydd ffocws yr hanner tymor nesaf ar ddathlu diwedd y degfed blwyddyn ers sefydlu'r ysgol, gyda nifer o weithgareddau wedi'u trefnu i nodi'r achlysur. Bydd y rhain yn cynnwys Noson Bingo, teithiau cerdded, raffl fawreddog a phenllanw'r dathliadau – Ffair Haf ar y 13eg o Orffennaf.

Dros wyliau'r hanner tymor, bydd carfan sylweddol o ddisgyblion a staff yn gwneud eu ffordd i fyny i Eisteddfod yr Urdd, Sir Fôn, a dymunaf bob llwyddiant iddynt. Mae rhai eisoes wedi llwyddo ar lefel genedlaethol yn y cystadlaethau celf a chrefft a gwaith cartref, a chewch ddysgu mwy am y rheini yn y rhifyn hwn.

Hoffwn ddiolch i'r holl ddisgyblion am eu gwaith, a'r holl staff am eu cefnogaeth dros yr hanner tymor diwethaf, ac edrychwn ymlaen at groesawu pawb nôl i'r ysgol ar y 1af o Fehefin.

Yn gywir,

*G Evans*

oni heuir ni fedir

Dathlu'r Degawd

## Amserau Apwyntiadau Gyda'r Pennaeth

**Bore Mawrth rhwng 8.30 a 9.00 (3 slot 10 munud)**
**Prynhawn Iau rhwng 15:30 a 16:00 (3 slot 10 munud)**

**I wneud apwyntiad, ewch i**

**https://www.ysgolbroteifi.cymru/info/v/93-gwnewch-apwyntiad-i-siarad-gyda-r-pennaeth/**

# Dathlu Llwyddiannau!



## Gornest Lyfrau

Mae'r criw yma o ddisgyblion blwyddyn 8 wedi cystadlu yng Ngornest Lyfrau y Cyngor Llyfrau ac wedi dod yn gyntaf yn y rownd sirol allan o 15 tîm arall. Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw a phob lwc yn y rownd genedlaethol!

F1 in Schools Wales







Llongyfarchiadau i chwech disgybl blwyddyn 7 a deithiodd i Gaerdydd i gystadlu yn eu cystadleuaeth rasio STEM gyntaf.
Wrth gystadlu mewn maes o 52 o dimau ar draws y tri chategori (mynediad, datblygu a phroffesiynol), llwyddon nhw sicrhau safle ymhlith y tri uchaf am eu cyflwyniad llafar ac ennill gwobr Dewis Y Beirniaid - camp arbennig.

Diolch yn arbennig i'n noddwyr hael: Spencer Quantum, UFM, Cartrefi'r Cwm, Eilir Williams Cyf, Cariad Glass, Siop Ffab a Paddlers. Rydym yn hynod ddiolchgar am eich cefnogaeth wrth wneud y cyfle hwn yn bosib.
Diolch arbennig hefyd i Lottie Clarke a Lois Edmonds o flwyddyn 12, a fu ar gael i fentora ac arwain y tîm drwy gydol y broses.

## Peirianneg



Llongyfarchiadau enfawr i dîm Peirianneg Blwyddyn 12 ar eu llwyddiant rhagorol yng nghystadleuaeth EESW.
Yn erbyn 53 o dimoedd o ysgolion a cholegau chweched ledled De Cymru, llwyddodd y tîm i ddod i'r brig drwy ennill y wobr 'Defnydd Gorau o TG / Codio' am eu prosiect arloesol.
Yn ogystal, derbyniodd y tîm ddau enwebiad arall:
• Dylunio Peirianneg Cemegol / Proses Gorau
• Model Gwaith neu Brototeip Gorau
Dyma berfformiad gwirioneddol wych sy'n adlewyrchu eu gwaith caled, eu creadigrwydd a'u penderfyniad.
Diolch arbennig i'r cwmni lleol SERB am osod y briff i ddatblygu System Rheoli Hidlo ac am eu cefnogaeth barhaus i'r tîm dros y misoedd diwethaf.

# Eisteddfod Cylch yr Urdd

**Llongyfarchiadau** mawr iawn i'r holl ddisgyblion oed cynradd a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch.

**Gwobrau Cyntaf:**

Beca Davies-Williams – Unawd Bl.2 ac iau
Parti Unsain Bl.6 ac iau (Ysgolion â dros 50 o blant)
Ifan Morris – Llefaru Unigol Bl.3 a 4
Maria Stancu - Llefaru Unigol Bl.2 ac iau (D)
Parti Deulais Bl.6 ac iau
Ensemble Lleisiol Bl.6 ac iau
Marged Evans – Unawd Bl.3 a 4
Efa James - Unawd Bl.5 a 6
Marged Evans – Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.6 ac iau
Ifan Morris – Unawd Cerdd Dant Bl.3 a 4

**Ail Wobr:**

Ela Hughes – Unawd Bl.2 ac iau
Ioan Evans – Llefaru Unigol Bl.2 ac iau
Martha Jones - Llefaru Unigol Bl.3 a 4
Anna Marharian - Llefaru Unigol Bl.2 ac iau (D)
Ifan Morris - Unawd Bl.3 a 4
Gwenno Thomas - Unawd Bl.5 a 6
Ifan Morris - Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.6 ac iau
Efa a Gwenno - Deuawd Bl.6 ac iau
Lois Hywel - Unawd Cerdd Dant Bl.3 a 4

Cofiwch ddilyn ein tudalen facebook am wybodaeth pellach

www.facebook.com/BroTeifi

**Trydedd Wobr:**

Mari Evans - Llefaru Unigol Bl.2 ac iau
Marged Evans - Llefaru Unigol Bl.3 a 4
Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau
Moli Evans - Unawd Bl.3 a 4
Efa James - Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.6 ac iau
Marged Evans - Unawd Cerdd Dant Bl.3 a 4

# Eisteddfodau Rhanbarth yr Urdd

**Llongyfarchiadau** mawr iawn i'r holl ddisgyblion oed uwchradd a fu'n cystadlu yn yr Eisteddfodau Rhanbarth. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at eu gweld yn perfformio yn Eisteddfod Môn yn ystod y gwyliau hanner tymor. **Amdani!**

**Gwobrau Cyntaf:**

Dawns Werin Bl.10 a dan 19 oed
Gruffydd Davies – Monolog Bl.7, 8 a 9
Efa ac Anni – Perfformio Golygfa Bl.10 a dan 19 oed
Efa Davies – Monolog Bl.10 a dan 19 oed
Alaw Evans – Perfformiad o gân Sioe Gerdd Bl.10 a dan 19 oed
Alaw Evans – Unawd S/A Bl.10 a dan 19 oed
Ensemble o Gân Sioe Gerdd Bl.10 a dan 25 oed
Alaw a Gwenllian – Deuawd Bl.10 a dan 19 oed
Ensemble Lleisiol Bl.7, 8 a 9
Ensemble Lleisiol Bl.10 a dan 19 oed
Gruffydd Davies – Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl.7, 8 a 9
Betsi Fwyn Jones – Unawd Offer Taro Bl.7, 8 a 9
Betsi Fwyn Jones – Unawd Gitâr Bl.7, 8 a 9

**Ail Wobr:**

Dewi a Magw - Perfformio Golygfa Bl.10 a dan 19 oed
Elliw Dafydd – Perfformiad Unigol o Gân Sioe Gerdd Bl.7, 8 a 9
Gruffydd Davies – Unawd Bechgyn Bl.7, 8 a 9
Elliw a Gwenlli – Deuawd Bl.7, 8 a 9
Anna Evans - Unawd Offer Taro Bl.7, 8 a 9

Cofiwch ddilyn ein tudalen facebook am wybodaeth pellach

www.facebook.com/BroTeifi

**Trydedd Wobr:**

Gruffydd Davies – Unawd Cerdd Dant Bl.7, 8 a 9
Magw Thomas – Llefaru Unigol Bl.10 a dan 19 oed

# Eisteddfodau Rhanbarth yr Urdd

**Llongyfarchiadau** mawr iawn i'r holl ddisgyblion oed cynradd a fu hefyd yn cystadlu yn yr Eisteddfodau Rhanbarth. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at eu gweld nhw hefyd yn perfformio yn Eisteddfod Môn yn ystod y gwyliau hanner tymor.
**Pob lwc!**

**Gwobrau Cyntaf:**

**Unawd bl.3 a 4 - Ifan Morris**
**Unawd Cerdd Dant bl.3 a 4 - Ifan Morris**
**Unawd bl.2 ac iau - Ela Hughes**
**Llefaru unigol bl.2 ac iau (D) - Maria Stancu**
**Unawd Alaw werin bl.6 ac iau - Marged Evans**
**Parti Unsain (dros 50 o blant)**
**Parti Deulais (YC/Adran)**

**Ail Wobr:**

**Llefaru unigol bl.3 a 4 - Ifan Morris**
**Ensemble Lleisiol**
**Côr (dros 301 o blant)**

**Trydedd Wobr:**

**Unawd bl.3 a 4 - Marged Evans**
**Llefaru unigol bl.2 ac iau (D) - Anna Marharian**
**Deuawd bl.6 ac iau - Efa Medi a Gwenno Thomas**
**Unawd Alaw werin bl.6 ac iau - Ifan Morris**



Llongyfarchiadau hefyd i'r band 'Hei, Dim Tei!' ar gyrraedd rownd derfynol Eisteddfod yr Urdd yn y gystadleuaeth **Band/Artist Unigol Bl 7-13**. Pob lwc i Emrys, Magw, Gwenllian, Marged, Gwenlli, Celyn, Elliw, Betsi a Gruff!

**Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus yr Urdd**

Bydd Mali Evans, Anwen Lewis, Efa Davies ac Elin Needham hefyd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn dilyn eu llwyddiant yn y Rownd Gyn-derfynol.

# Eisteddfod Celf a Chrefft yr Urdd

Cafwyd llwyddiannau di-ri mewn ystod eang o gystadlaethau Celf a Chrefft ar **lefel rhanbarthol**. Llongyfarchiadau mawr iawn i'r canlynol:

Tudalen Gomic Bl.7, 8 a 9 – 2il – Beca Lloyd-Davies
Cynllunio Crys-t Bl.7, 8 a 9 – 2il – Beca Lloyd-Davies
Cynllunio Crys-t Bl.7, 8 a 9 – 3ydd – Elsi Williams
Creadigol 2D Bl.2 ac iau – 3ydd - Owain Thomas
Graffeg Cyfrifiadurol Bl.7, 8 a 9 – 2il – Bedwyr Thomas
Graffeg Cyfrifiadurol Bl.7, 8 a 9 – 3ydd – Beca Lloyd-Davies
Ffotograff wedi'i addasu Bl.7, 8 a 9 – 2il - Bedwyr Thomas
Ffotograffiaeth: Llun du a gwyn Bl.10 a dan 19 oed – 1af – Magw Thomas
Ffotograffiaeth: Llun du a gwyn Bl.10 a dan 19 oed – 2il – Emrys ab Iestyn
Ffotograffiaeth: Llun Lliw Bl.2 ac iau – 2il – Owain Thomas
Ffotograffiaeth: Llun Lliw Bl.5 a 6 – 3ydd – Katie Thomas
Ffotograffiaeth: Llun Lliw Bl.10 a dan 19 oed – 2il – Emrys ab Iestyn
Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau du a gwyn Bl.2 ac iau – 3ydd – Owain Thomas
Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau du a gwyn Bl.10 a dan 19 oed – 1af – Magw Thomas
Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.2 ac iau – 1af – Owain Thomas
Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.7, 8 a 9 – 2il – Bedwyr Thomas
Ffotograffiaeth: Cyfres o Luniau Lliw Bl.10 a dan 19 oed – 3ydd – Magw Thomas
Gwaith 3D Bl.2 ac iau – 3ydd – Owain Thomas
Gemwaith Bl.7, 8 a 9 – 3ydd – Beca Lloyd-Davies
Dylunio a Thechnoleg Bl.10 a dan 19 oed – 1af – Guto Dafis
Addurno ar ffabrig Bl.5 a 6 – 3ydd – Katie Thomas
Gwaith 3D Bl.5 a 6 – 2il – Katie Thomas

Ar lefel **genedlaethol**, daeth llwyddiant i'r canlynol:

1af - Owain Thomas: Ffotograffiaeth - Cyfres o Luniau Lliw Bl.2 ac iau
2il - Guto Dafis: Dylunio a Thechnoleg Bl.10 a dan 19 oed
1af - Magw Thomas: Ffotograffiaeth - Llun Du a Gwyn Bl.10 a dan 19 oed
3ydd - Magw Thomas: Ffotograffiaeth - Cyfres o Luniau Du a Gwyn Bl.10 a dan 19 oed



# Calyniadau Gwaith Cartref Eisteddfod yr Urdd






Llongyfarchiadau mawr i saith o'n disgyblion ar eu llwyddiant gyda'u gwaith llenyddol a chyfansoddi. Byddant yn derbyn eu medalau a'u tystysgrifau yn Eisteddfod yr Urdd ar Ynys Môn yn ystod gwyliau'r hanner tymor. Arbennig!

Alaw Evans 2il - Cyfansoddi Cerddoriaeth i ddisgyblion Bl.12 a 13
Marged Dafis 2il - Rhyddiaith Bl.8
Gwion Evans 3ydd - Sylwebu Gêm Pêl-droed Cymru
Magi Williams 2il - Adolygiad o unrhyw ffilm Bl.7-9
Magi Williams ac Einir George 2il - Cylchlythyr Gwaith Grŵp Bl.7, 8 a 9
Esyllt Jones 2il - Barddoniaeth Bl.10 ac 11
Magw Thomas:
1af - Rhyddiaith Bl. 10 ac 11
1af - Rhyddiaith dan 19 oed: Araith neu Anerchiad
1af - Creu Fideo Cerddoriaeth
3ydd - Cynnwys Digidol Bl.7 – 19 oed
3ydd - Barddoniaeth Bl.10 ac 11

# Pob Dymuniad Da i'r Holl Gystadleuwyr yn Eisteddfod Ynys Môn 23-29ain o Fai 2026

EISTEDDFOD YR URDD



# Llwyddiannau Chwaraeon




## Ysgol Bro Teifi yn dathlu buddugoliaeth pencampwriaeth genedlaethol

Teithiodd tîm rygbi dan 18 Ysgol Bro Teifi i Gasnewydd ar gyfer Rownd Derfynol Plât URC, gan wynebu Ysgol Maes y Gwendraeth yn Rodney Parade mewn gêm gyffrous a chystadleuol iawn.

O'r chwiban gyntaf, roedd y gêm yn gyflym ac yn gorfforol, gyda chwaraewyr Ysgol Bro Teifi yn dangos ymrwymiad ac ymdrech aruthrol ym mhob agwedd o'r chwarae.

Dechreuodd Ysgol Bro Teifi'n gryf, gyda cheisiau gan Elis Evans, Llew Thomas a Jack Brown yn rhoi mantais gynnar i'r tîm. Ychwanegodd Dafydd Nichols y pwyntiau ychwanegol gyda chicio cywir. Er bod Ysgol Maes y Gwendraeth yn parhau i herio, llwyddodd Bro Teifi i gadw'r fantais.

**Sgôr hanner amser: 19–14**

Yn yr ail hanner, cynyddodd y pwysau wrth i'r gêm fynd yn fwy tynn a chystadleuol. Bu'n rhaid i chwaraewyr Bro Teifi amddiffyn yn gadarn a dangos disgyblaeth dan bwysau.

Daeth yr ymdrechion hyn yn werth chweil gyda chais hwyr a roddodd fwy o fwlch i'r tîm. Yn y munudau olaf, cipiwyd cic gosb hanfodol. Cadwodd Nichols-Evans ei nerfau a llwyddo i sgorio, gan sicrhau'r fuddugoliaeth.

**Sgôr Terfynol: 27–19**

# Llwyddiannau Chwaraeon

## Tîm Hoci Dan-14



Llongyfarchiadau mawr i'n tîm hoci Dan 14 am eu perfformiad arbennig yn Rownd Derfynol Rhanbarthol De Cymru yn Abertawe. Dangosodd y tîm benderfyniad, ymdrech a gwaith tîm gwych drwy gydol y twrnamaint, gan orffen gyda buddugoliaeth wych 2–0 yn erbyn Ysgol King Henry. Gemau cyfartal yn erbyn Bishopston ac Ysgol Y Pant. Ond cafwyd gêm galed yn erbyn enillwyr y twrnamaint, Ysgol Howells gan golli 4-0.

## Tim Rygbi Merched Dan 18



Gwnaeth Tîm Rygbi Merched dan 18 yr ysgol frwydro'n ffyrnig yn Rownd Derfynol Cwpan Cymru. Gwelwyd ceisiadau wedi'u dal i fyny, brwydrau yn y llinellau, a gêm o un sgôr yn unig erbyn hanner amser. Chwaraeodd merched Blwyddyn 11 yn arbennig gan gystadlu'n gorfforol yn erbyn y merched hŷn.

## Tîm Rygbi Tacl Blwyddyn 5 a 6



Llongyfarchiadau i dîm Bro Teifi B am ennill twrnamaint rygbi tacl yr Urdd a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar.

Da iawn hefyd i dîm Bro Teifi A am berfformaidau arbennig yn ystod y twrnamaint.

# Taith Breswyl Llangrannog



Bu disgyblion blynyddoedd 3 a 4 ar daith breswyl i Langrannog. Cawsant gyfleoedd amrywiol gan gynnwys dringo, marchogaeth, beiciau cwad, trampolinio a rhostio malws melys. Gwnaed atgofion i'w trysori.










## Biolegydd y Môr

Daeth Laura o Cardigan Bay Marine Wildlife Centre (CBMWC) atom ni i siarad am ei gwaith fel Biolegydd y Môr yng Nghei Newydd. Soniodd am yr opsiynau sydd yna fel gyrfa a pha cymhwysterau sydd eu hangen ar gyfer y maes.




## Gofal Plant




Daeth Leanne McFarland o Gofalwn Cymru i siarad â'n disgyblion Iechyd a Gofal. Cafwyd cyflwyniad diddorol ar yrfaoedd yn y sector Gofal Plant.

# Ffocws ar Ddyniaethau

Bu criw o ddisgyblion Blwyddyn 9 sydd wedi dewis astudio Hanes fel un o'u pynciau TGAU, wedi bod yn gweithio ar brosiect cyffrous gydag Ymlaen Llandysul a Phont Tyweli. Bu Cymdeithas Hanes Llandysul yn sgwrsio â'r disgyblion ynglŷn ag hanes yr ardal yn ogystal â'u hatgofion am yr ardal. Bydd podlediad yn cael ei ryddhau'n fuan fel penllanw'r prosiect. Diolch i Gemma Jones, Jane Kerr, Lesley Parker ac Owain Llŷr am eu cefnogaeth a'u harweiniad gyda'r prosiect.





Cafodd ein ddisgyblion Blwyddyn 12 Daearyddiaeth gyfle i gwblhau alldaith gwaith maes ffisegol a dynol yn ddiweddar. Yn y bore gwnaethant ymweld â thraeth Poppit er mwyn astudio newidiadau'r twyni tywod wrth ymbellhau o'r môr. Tra yn y prynhawn, astudiwyd adfywio ac ail-ddelweddu tref Aberteifi gan ystyried a yw hyn wedi elwa'r ardal leol. Cawsom ddiwrnod da, gyda'r disgyblion yn archwilio'n wych!





# Taith Llundain

Bu Chweched Ysgol Bro Teifi am ddeuddydd prysur iawn yn Llundain yn ymweld â San Steffan, amgueddfeydd, y theatr a Harrods. Cafwyd sgwrs diddorol iawn gyda'r Aelod Seneddol Ben Lake hefyd.









# Amgueddfa Wlân Drefach Felindre



Cafodd Blwyddyn 6 ddiwrnod wrth eu boddau wrth iddynt ymweld â'r Amgueddfa Wlân yn Nrefach Felindre. Cawsant daith o amgylch y ffatri wlân gan ddysgu am yr hanes. Buont hefyd yn ffeltio gan ddefnyddio gwlân.

# Caerdydd

Cafwyd diwrnod arbennig yng Nghastell Caerdydd a Sain Ffagan. Gwnaeth blynyddoedd 5 a 6 ymweld â thwneli y castell a oedd yn cael eu defnyddio fel lloches yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cafwyd gweithdy diddorol hefyd yn sôn am y ffrynt cartref a bywyd yn gyffredinol yn y cyfnod. Treuliwyd gweddill y diwrnod yn Sain Ffagan, gan edrych ar adeiladau amrywiol o gyfnodau gwahanol. Diwedd arbennig i waith thema’r tymor.



# Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Cwrdd ag Awduron






Cafodd Blwyddyn 3 a 4 sesiwn wych yn Llyfrgell Llandysul, lle cawsant gyfle cyffrous i gwrdd a dysgu am lyfr newydd y Welsh Whisperer.

Bu disgyblion blynyddoedd 5 ac 8 yn rhan o 'Sesiwn Awdur' a drefnwyd gan Cyngor Llyfrau Cymru. Daeth Siôn Tomos Owen, Bardd Plant Cymru, i gynnal gweithdy creadigol gyda'r disgyblion.







# TGAU Amaeth

## Fferm Shadog



Cafodd ddisgyblion Amaeth brofiad gwych wrth ymweld â fferm Shadog. Buont yn geni ŵyn bach newydd, bwydo'r defaid, paratoi llocau, bwydo ŵyn swci a mwynhau mas draw!

Diolch o galon i Gary a Meinir am ganiatau i ni eu helpu am gwpwl o oriau!

## Taith i Henffordd

Cafwyd taith lwyddiannus iawn i Henffordd. Bu'r disgyblion yn  ymweld â fferm mafon, llus a thato BHSavidge yn Woodfields a Rock Farm. Yna profi godro a'r bwydo o 650 o eifr ar fferm Bradley. Gweld fferm odro â robotiaid oedd fferm ola'r diwrnod cyntaf. Yn ogystal, gwelwyd treuliwr anaerobig ar waith ac roedd pwyslais mawr ar amaethu cynaliadwy. Ymwelwyd â fferm gymysg Ballingham Court -uned bîff Henffordd oedd â'i frid ar addysgu cenhedlaeth newydd o amaethwyr a thyfu afalau i greu sudd. Rhan ola'r daith oedd ymweld â Choleg Hartpury. Taith bythgofiadwy iawn i bawb.



# Fforwm Eco a’r Amgylchedd




Yn ystod Mis Ebrill, daeth Emma Sisto a Bethan Evans Phillips o Keep Wales Tidy - Cadwch Gymru'n Daclus i ddysgu mwy am waith ein Fforwm Eco a'r Amgylchedd a'r ysgol gyfan. Mae ein cais am y 3ydd Wobr Baner Werdd Eco-Sgolion wedi bod yn llwyddiannus. Rydym yn hynod falch o gyfraniad pawb at y Wobr.

Eco-Schools
Eco-Sgolion

Fforwm Eco a'r Amgylchedd

# NOSON BINGO NIGHT

CYFEILLION BRO TEIFI

Ffrindiau • Teulu • Cymuned

YSGOL BRO TEIFI

YN CEFNOGI, GYDA'N GILYDD




**GWOBRAU AMRWYIOL**
**VARIOUS PRIZES**

**MYNEDIAD/ ENTRY**
**£10 OEDOLYN/ADULT**
**£5 PLENTYN/CHILD**

**LLUNIAETH**
**REFRESHMENTS**

## NEUADD YSGOL BRO TEIFI HALL

**18/6/2026** **19:00**

oni heuir ni fedir
Dathlu'r Degawd

**ELW TUAG AT GRONFA CYFEILLION BRO TEIFI**
**PROCEEDS TOWARDS CYFEILLION BRO TEIFI FUND**

oni heuir ni fedir
Dathlu'r Degawd